**Astudiaeth achos:**
Grant Adnewyddu Menter

**Rhanbarth**
Sir Ddinbych

**Sector**
Twristiaeth

**Gwerth y prosiect**
£6,898







# GRAIG ESCAPES

*Mae cwmni glampio wedi buddsoddi i greu amgylchedd gwaith mwy diogel sydd hefyd yn sbardun ar gyfer twf.*

Mae Dean Irvine, cyfarwyddwr Graig Escapes, yn ddyn â gweledigaeth. Mewn dim ond dwy flynedd, mae ef a'i deulu wedi creu busnes twristiaeth amlweddog gyda chynlluniau mawr ar gyfer y dyfodol.

O safle trawiadol ym Mhentre Celyn gyda golygfeydd yn ymestyn tuag at Eryri, maent yn cynnig mwy na dim ond arosiadau moethus mewn bwthyn gwyliau, cwt bugail a chabanau trawiadol Sgandinafaidd y mae Dean yn adeiladu ei hun. Maen nhw hefyd yn glanhau ac yn rheoli 25 eiddo gwyliau ledled Gogledd Cymru ac yn darparu teithiau cerdded a phrofiadau bythgofiadwy gyda'u grŵp eu hunain o alpacas. Maent hyd yn oed yn cynhyrchu cytiau bugeiliaid traddodiadol ar gyfer gweithredwyr twristiaeth eraill drwy eu brand Graig Glamping.

Gyda phob rhan o'r busnes yn cynyddu, roedd Dean a'i staff yn brysur yn eu gweithdy. Dim ond un broblem – nid oedd gan yr adeilad ddrws nac ochrau. Nid yw'n ddelfrydol ar lethr mynyddig Cymreig lle mae'r gaeafau'n hir ac yn galed. Roedd hefyd yn golygu treulio llawer o amser yn gosod yr offer bob bore a'u tynnu ar ddiwedd y dydd.

Diolch i'w grant Adnewyddu Menter, llwyddodd Dean i osod drws caead rholer galfanedig a gorchuddion metel proffil blwch i wneud y waliau. Roedd hefyd yn talu am raciau paledi, llif band i droi pren a metel yn siapiau pwrpasol ac echdynnydd llwch i gadw'r gweithdy sydd newydd ei selio'n ddiogel. Nawr gallant hyd yn oed wahanu'r naddion pren oddi wrth y llwch i'w defnyddio fel gwellt gwely clyd ar gyfer yr alpacas. Mae wedi trawsnewid y gwaith.

"Gallwn weithio oriau hirach mewn amgylchedd gwell ac mae'r staff yn hapusach," meddai Dean. "Mae wedi caniatáu i ni ddod i'r gweithdy yn y bore a gweithio yn syth. Gallwn hefyd weithio ar ddau gwt ar yr un pryd, sy'n wych oherwydd mae'n golygu y gallwn leihau amseroedd arwain, gwerthu cymaint â phosibl a chyflogi mwy o staff wrth i'r twf barhau."

Yn yr un modd, maen nhw wedi creu lle trawiadol i westeio darpar gleientiaid, gan roi cipolwg go iawn ar lefel y crefftwaith – a'r cyfle i ddilyn camau allweddol wrth i'w cwt bugail gael ei adeiladu.

"Byddai wedi bod yn anodd iawn i ni fel cwmni wneud y buddsoddiad hwn ar ein pen ein hunain ac yn sicr byddai wedi cymryd llawer mwy o amser i ni," ychwanegodd Dean. "Fel busnes sy'n datblygu, mae angen i ni reoli ein llif arian yn ofalus ac mae'r grant Adnewyddu Menter wedi bod yn ddefnyddiol iawn."

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government